
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Foel Caerynwch, Dolgellau

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 3km (1.8 milltir)
- Hyd: 1½ awr
- Math o daith: Cylchdaith

### ⚠ Cyn i chi gychwyn


Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru



V-20231127/2001

1



O neuadd bentref Brithdir, cerddwch ar hyd y palmant i gyfeiriad yr arhosfan bws gwyrdd gan fynd heibio'r blwch postio.

2




Trowch i'r chwith cyn y capel ar hyd ffordd gyda'r arwydd 'Dim ffordd drwodd'. Ewch heibio Cefn y Maes ar y chwith a thrwy'r giât o'ch blaen a cherddwch i gyfeiriad Tyn Llidiart.

3




Wedi i chi fynd heibio Tyn Llidiart, dilynwch y trac glaswelltog i fyny i'r chwith. Ewch trwy'r giât a dilynwch y cyfeirbyst i fyny drwy'r cae.

4



Trowch i'r chwith gan ddilyn y cyfeirbost am Foel Caerynwch a chadw at y Llwybr Caniataol. Pan gyrhaeddwch y giât, dilynwch yr arwyddbost am Foel Caerynwch sy'n mynd ar i fyny ar hyd ymyl y wal gerrig.

5




Dilynwch y cyfeirbost i'r dde gan barhau i ddilyn ymyl y wal gerrig. Yna dilynwch y cyfeirbost i'r chwith a cherddwch ar hyd y llwybr sy'n croesi'r cae ac yna'n dringo'n igam-ogam i fyny'r bryn tuag at y gamfa.

6



Croeswch y gamfa i'r Tir Agored, trowch i'r chwith a dilynwch y polion gwyn sy'n arwain i fyny'r bryn. Ar ôl y trydydd polyn, rydych bron â chyrraedd copa Foel Caerynwch. Cerddwch yn syth i fyny i gyrraedd y copa ble cewch fwynhau golygfeydd godidog o Feirionnydd a thu hwnt.

7



O'r copa, dilynwch y polion gwyn sy'n arwain i'r dwyrain ac ar draws y Tir Agored am tua 400m hyd nes cyrhaeddwch at gamfa.

8



Croeswch y gamfa ac ewch i'r dde gan ddilyn y polion tuag at fwlch yn y wal gerrig. Gall y tir fod yn wlyb dan draed yma. Dilynwch y polion sy'n eich arwain ar hyd llwybr aneglur sy'n disgyn yn igam-ogam o amgylch y drain gwynion i lawr y bryn.

9



Cyn hir fe gyrhaeddwch waelod y cae. Ewch dros y gamfa ger y giât ac yna ewch ar hyd ymyl dde'r cae gan anelu tuag at y polyn ym mhen pellaf y cae

**10**



Ewch yn eich blaen gan ddilyn yr arwydd llwybr cyhoeddus ar y postyn giât o’ch blaen (anwybyddwch yr arwydd llwybr cyhoeddus sy’n cyfeirio i’r dde). Dilynwch y llwybr wrth iddo nesáu tuag at y pentref ac ymuno â’r trac cerrig.

**11**



Ewch dros y gamfa ger y giât, trowch i’r chwith a cherddwch ar hyd y ffordd yn ôl i fan cychwyn y daith.